*These notes refer to the Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (c.1)*

# DEDDF TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU) 2017

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 8 – Dehongli a Darpariaethau Terfynol

### *Atodlen 6 – Lesoedd*

### Rhan 2 - Hyd les a thrin lesoedd sy’n gorgyffwrdd

### Rhent ar gyfer cyfnod o orgyffwrdd os rhoddir les bellach

242. Mae paragraff 7 yn gymwys pan fo tenant yn ildio les (yr “hen les”) a’r landlord yn rhoi les newydd i’r tenant ar gyfer yr un eiddo neu’r un eiddo i raddau helaeth, neu pan fo’r tenant, o dan amgylchiadau penodedig eraill, tebyg, yn cael les newydd ar gyfer yr un eiddo neu’r un eiddo i raddau helaeth.

243. Yn yr achosion hyn caiff y rhent sy’n daladwy o dan y les newydd ei drin fel pe bai wedi ei ostwng yn ôl swm y rhent a fyddai wedi bod yn daladwy o dan yr hen les. Darperir y rheol hon er mwyn sicrhau nad yw prynwr yn talu treth ar yr un symiau o rent o dan yr hen les a’r les newydd.